# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

## RHAN 5

GORFODI SAFONAU

## PENNOD 8

CYFFREDINOL

*Dehongli*

### 110 Dehongli

Yn y Rhan hon—

ystyr "camau gorfodi" ("*enforcement action*"), mewn perthynas ag ymchwiliad o dan adran 71, yw un neu ragor o'r canlynol—

(a) ei gwneud yn ofynnol i D baratoi cynllun gweithredu at ddiben atal methiant D rhag parhau neu gael ei ailadrodd;

(b) ei gwneud yn ofynnol i D gymryd camau at ddiben atal methiant D rhag parhau neu gael ei ailadrodd;

(c) rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D;

(d) ei gwneud yn ofynnol i D roi cyhoeddusrwydd i'r methiant;

(e) gosod cosb sifil ar D;

ystyr "person a chanddo fuddiant" ("*interested person*") mewn perthynas ag ymchwiliad o dan adran 71 yw—

(a) D, a

(b) os yw'r ymchwiliad yn dilyn cwyn a wnaed o dan adran 93, y person a wnaeth y gŵyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 110 ddim mewn grym ar Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 156(2)**

**I2** A. 110 mewn grym ar 7.7.2015 gan O.S. 2015/1413, **ergl. 3(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Croes Bennawd: Dehongli.